**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID**
**5 HYDREF 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd Y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NA ddydd Iau, 5 Hydref 2017.

**YN BRESENNOL: David Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Geoff Collett, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Tudor Jones, Dave Mackie ac Ian Smith

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lynn Bartlett a David Hytch

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr Mike Allport (ar gyfer Sian Braun), a Gladys Healey (ar gyfer Andy Dunbobbin)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Cindy Hinds a Carolyn Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd David Williams. Mrs Rebecca Stark. Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Aaron Shotton (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Cyllid), Y Cynghorydd Ian Roberts (Aelod Cabinet Addysg), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid (Addysg ac Ieuenctid), Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion, ac Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion. (Ar gyfer cofnod rhif 19) Mr Alwyn Lloyd Jones – Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer GwE, Mr Elfyn Vaughan Jones – Arweinydd Uwchradd Rhanbarthol ar gyfer GwE, a Mr Martyn Froggett – Arweinydd Craidd Uwchradd ar gyfer Sir y Fflint

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 15. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ian Smith gysylltiad personol yn eitem 4 ar y rhaglen – Comisiynu a Gweithredu Cludiant i'r Ysgol, oherwydd ymgysylltiad agos aelod o'i deulu.

Datganodd y Cynghorydd Tudor Jones gysylltiad personol yn eitem 8 ar y rhaglen - Trefniadaeth yr Ysgol, fel Aelod Ward lleol ar gyfer ysgol a enwir yn yr adroddiad.

Datganodd y Cynghorydd Patrick Heesom gysylltiad personol yn eitem 8 ar y rhaglen hefyd - Trefniadaeth yr Ysgol, fel Aelod a fynychodd cyfarfodydd llywodraethwr yr ysgol.

Datganodd Mr  David Hytch gysylltiad personol yn eitem 8 ar y rhaglen, fel Cadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol ffederal a nodir yn yr adroddiad.

## 16. COFNODION

Roedd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2017 wedi
eu dosbarthu i Aelodau gyda'r rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 17. Y DIWEDDARAF AR GOMISIYNU A GWEITHREDU CLUDIANT I'R YSGOL

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y papur ategol a gafodd ei ddosbarthu yn y cyfarfod i roi diweddariad ar broses ail-gaffael y llwybrau cludiant gan yr Uned Trafnidiaeth Integredig.  Cynghorodd mai pwrpas y papur oedd esbonio digwyddiadau diweddar a heriau gweithredol yn ystod y trawsnewid i'r llwybrau a'r gweithredwyr cludiant newydd, er mwyn rhoi sicrwydd bod y gwasanaethau wedi dychwelyd i'r drefn arferol, ac i ystyried sut i wella trefniadau ar gyfer y dyfodol.

Esboniodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod y Cyngor wedi wynebu cyfres unigryw o sefyllfaoedd oherwydd y symud i ddull newydd o gaffael, ail-dendro llwybrau newydd fel ymarfer unigol, a rheoli'r cyfnod o drawsnewid yn ystod toriad gwyliau'r haf i ysgolion.    Bu iddo adrodd ar y trawsnewid i lwybrau a gweithredwyr cludiant newydd, yr heriau a brofwyd, a'r gwelliannau allweddol ar gyfer y dyfodol.  Wrth ddod i gasgliad, sicrhaodd y Prif Swyddog na fu unrhyw risg i ddisgyblion a bod darpariaeth cludiant i'r ysgol wedi'i gynnal drwy gydol y broses drawsnewid.

Gwnaeth y Cynghorydd Aaron Shotton sylw ar yr angen i adolygu a rhesymoli darpariaeth cludiant ysgol, a dywedodd fod nifer o'r anghysondebau yn y trefniadau gweithredu presennol wedi'u nodi.  Roedd yr adolygiad wedi arwain at nifer o welliannau a fyddai'n lleihau risg a gwneud y mwyaf o ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad diweddaru.

Nodi'r adroddiad diweddaru.

## 18. RHAGOLWG ARIANNOL A CHAM UN Y GYLLIDEB 2018/19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ar y rhagolwg ariannol cyfredol ar gyfer 2018/19 ac ar gynigion Cam 1 Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor ar gyfer 2018/19. Rhoddodd wybodaeth a chyd-destun cefndirol, gan gynghori bod yr opsiynau newydd ar gyfer y portffolio Addysg ac Ieuenctid, y pwysau ariannol, a'r amserlen ar gyfer y broses pennu cyllideb wedi'u nodi yn

yr adroddiad. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr hefyd at y Model Gweithredu Addysg ac Ieuenctid, a'r Datganiad Atgyfnerthu a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad. Dywedodd fod y Setliad Llywodraeth Leol Cymru dros dro i'w gyhoeddi ar 10 Hydref.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ar y rhagolwg ariannol a'r pwysau cenedlaethol, lleol, chwyddiant a'r gweithlu, fel y manylir yn yr adroddiad sy'n benodol i'r portffolio Addysg ac Ieuenctid. Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar y pwysau cyfredol mewn perthynas â Chyllideb Ysgolion.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Patrick Heesom yn ymwneud â darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid, rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd y byddai'r ddarpariaeth yn y gyllideb sylfaenol, fel y mae'n sefyll, yn cael ei chadw.

Mynegodd Lynn Bartlett bryderon ar effaith lleihau addysg feithrin a gwnaeth sylw ar werth hirdymor addysg yn y blynyddoedd cynnar.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn fodlon â'r ymagwedd a gymerir i Gam Un y Gyllideb yn y portffolio Addysg.

## 19. MODEL RHANBARTHOL DIWYGIEDIG AR GYFER CEFNOGAETH YSGOLION UWCHRADD

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i roi trosolwg o'r trefniadau newydd yn y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol i roi gwell cefnogaeth i ysgolion uwchradd, a ddaeth i rym ym mis Medi 2017.

Esboniodd Uwch Reolwr Interim y Systemau Gwella Ysgolion fod adolygiad diweddar o berfformiad ysgol gan GwE wedi tynnu sylw at bryderon am berfformiad ysgolion uwchradd ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad hefyd nad oedd y model gweithredu gwreiddiol o raniad 80/20 o adnoddau o blaid ysgolion cynradd yn addas i'r pwrpas bellach a bod angen cyfeirio mwy o adnoddau at ysgolion uwchradd i sicrhau gwelliant cyflym. Cyflwynodd Mr Alwyn Lloyd Jones – Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE, Mr Elfyn Vaughan Jones – Arweinydd Uwchradd Rhanbarthol GwE, a Mr Martyn Froggett – Arweinydd Craidd Uwchradd ar gyfer Sir y Fflint, a'u gwahodd i adrodd ar y sail resymegol ar gyfer newid, gan ddarparu trosolwg o sut y byddai'r model rhanbarthol diwygiedig ar gyfer cefnogi ysgolion uwchradd yn cael ei weithredu.

Gwnaeth y Cynghorydd Dave Mackie sylw ar berfformiad ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint, gan roi gwybodaeth ar ganran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 2 ac uwch rhwng 2013 a 2016 mewn ysgolion uwchradd, fel enghraifft o'i bryderon. Wrth ymateb i'r materion a godwyd, cydnabu GwE yr angen i wella gan ddweud bod cynnydd yn cael ei wneud. Rhoddodd

swyddogion GwE sicrwydd hefyd fod ysgolion uwchradd Sir y Fflint yn perfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau eraill.

Yn ystod trafodaethau, ymatebodd swyddogion i'r sylwadau a'r pryderon pellach a godwyd ynghylch y data a ddarparwyd yn yr adroddiad yn ymwneud â pherfformiad ysgolion, yn seiliedig ar feincnodau a chymhwysedd prydau ysgol am ddim.

Cododd Mr David Hytch y mater o recriwtio athrawon, gan wneud sylw ar broblem recriwtio athrawon pynciau arbenigol, a chyfeirio at Fathemateg fel enghraifft. Cytunodd y Cynghorydd Ian Roberts gyda'r sylwadau a wnaed gan Mr Hytch ar y mater recriwitio a chadw athrawon yn ysgolion Sir y Fflint, gan awgrymu efallai y bydd y Pwyllgor am anfon llythyr arall at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg i amlinellu ei bryderon, a chytunwyd ar hyn gan y Pwyllgor. Cytunwyd hefyd y byddai'r Hwylusydd yn dosbarthu copi o'r llythyr blaenorol a gafodd ei anfon at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, yn ogystal ag ymateb y Gweinidog.

Yn ystod trafodaeth, codwyd materion pellach cefnogaeth ar gyfer penaethiaid, iechyd a lles staff ysgolion, balans rhwng gwaith a bywyd personol, a rhaglenni arweinyddiaeth gynaliadwy.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r newidiadau i'r model cefnogaeth ranbarthol ar gyfer cefnogi ysgolion uwchradd;

(b) Bod y Pwyllgor yn cydnabod y gefnogaeth uwch ar gyfer ysgolion uwchradd a'r newidiadau a ddyluniwyd i wella perfformiad ysgolion yn Sir y Fflint; a

(c) Bod yr Hwylusydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, ar ran y Pwyllgor, gan amlinellu ei bryderon ynghylch recriwtio athrawon.

## 20. DEILLIANNAU DYSGWYR 2017

Cyflwynodd Uwch Reolwr Interim Systemau Gwella Ysgolion adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor ynghylch y deilliannau dysgwyr wedi'u dilysu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, ac i rannu'r deilliannau dros dro i ddysgwyr ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a 5. Dywedodd fod yr adroddiad hefyd yn cymharu perfformiad Sir y Fflint â chynghorau eraill yng ngogledd Cymru a Chymru gyfan.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Interim wybodaeth gefndir, gan esbonio bod atodiadau unigol wedi'u hatodi i'r adroddiad a oedd yn rhoi dadansoddiad manwl o berfformiad pob cyfnod allweddol ar gyfer 2017, gan gynnwys cymariaethau i'r flwyddyn flaenorol ac i gyfartaleddau cyfredol Cymru. Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi cyrhaeddiad plant a phobl ifanc Sir y Fflint ar

gyfer 2016-17 yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, a'r data dros dro ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a 5.

Talodd y Cynghorydd Ian Roberts deyrnged i waith caled ysgolion wrth gyflawni perfformiad da a gwell, uwchlaw'r lefelau disgwyliedig, ym mhob dangosydd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3. Nodwyd perfformiad dros dro Sir y Fflint yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5 hefyd. Awgrymodd y gallai'r Pwyllgor fynegi ei llongyfarchiadau a diolch i ysgolion am eu gwaith caled a'u cyflawniadau.

Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Uwch Reolwr Dros Dro i'r sylwadau a wnaed o amgylch y gwahaniaeth o ran cyrhaeddiad yn y Gymraeg rhwng bechgyn a merched, a'r newid mewn safle ar gyfer Technoleg Gwybodaeth yn 2017.

**PENDERFYNWYD**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi cyrhaeddiad plant a phobl ifanc Sir y Fflint ar gyfer 2016-17 yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, a'r data dros dro ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a 5; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cael y ffigurau cyrhaeddiad dilys ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 21. TREFNIADAETH YSGOLION

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion, adroddiad i roi'r diweddaraf ar Ffederasiwn a chynigion trefniadaeth ysgolion eraill.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr wybodaeth gefndirol a chyd-destun a chyfeiriodd at yr ystyriaethau allweddol, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ynghylch y prosiect gwella cyfalaf yn Ysgol Uwchradd Cei Connah, a oedd hefyd yn cwmpasu gwaith i ddymchwel rhannau o hen adeilad Ysgol Uwchradd John Summers, a'r cynllun arfaethedig ym Mhenyffordd i uno'r trefniant safle rhanedig presennol a dod â'r holl ddarpariaeth gynradd i un safle.

Yn ystod trafodaeth, ymatebodd yr Uwch Reolwr i'r sylwadau a'r pryderon a godwyd ynghylch Ffederasiwn a threfniadaeth ysgolion. Dywedodd fod diweddariad ar faterion trefniadaeth ysgolion Ffederasiwn, cenedlaethol a lleol, wedi'i atodi i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

Nodi cynnydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

## 22. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol er mwyn ei hystyried.

Yn ystod y drafodaeth, dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts fod Llywodraeth Cymru wedi atal newidiadau arfaethedig i'r Cwricwlwm ac felly dylid dileu'r eitem Diwygio'r Cwricwlwm a drefnwyd ar gyfer cyfarfod 23 Tachwedd o'r flaenraglen waith am y tro.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddrafft; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 23. PRESENOLDEB AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd nac unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Cychwynnodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 4.47pm)

……………………….
**Cadeirydd**